



Diogelu Oedolion Archolledig

Pan rydych wedi cael eich cam-drin - sut mae'r broses yn eich amddiffyn?

Diogelu Oedolion Archolledig

Pan rydych wedi cael eich cam-drin - sut mae'r broses yn eich amddiffyn?

Mae gan bawb yr hawl i'w urddas dynol, parch ac i fyw eu bywyd heb gamdriniaeth ac esgeulustod.

Beth yw pwrpas y broses diogelu oedolion archolledig?

Efallai bod yna ofidion wedi cael eu nodi eich bod wedi cael eich anafu gan rywun, neu fod rhywun wedi eich gosod mewn perygl drwy eu gweithredoedd neu drwy esgeulustod.

Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol y ddyletswydd i edrych i mewn i bob gofid maent yn eu derbyn. Mae hyn yn cael ei wneud drwy broses a elwir yn Diogelu Oedolion Archolledig.

Os oes rhywbeth yn digwydd yn y gymuned leol, bydd gwasanaethau cymdeithasol yn ymateb, ac os oes rhywbeth yn digwydd mewn ysbyty neu leoliad gofal cynradd e.e. meddygfa neu glinig iechyd, bydd y Bwrdd Iechyd yn ymateb. Weithiau bydd angen i ni ofyn i eraill i edrych ar y sefyllfa, fel yr Heddlu.

Pan fydd gwasanaethau cymdeithasol yn derbyn gofidion am camdriniaeth neu esgeulustod bydd Uwch Swyddog Dynodedig yn cydlynu ateb.

Cyfrinachedd

Pan wneir honiad, bydd yna wybodaeth efallai y bydd rhaid i ni ei rannu ag eraill, fel yr heddlu neu bobl sy'n monitro ansawdd gwasanaethau gofal cofrestredig. Rydym yn cymryd gofal i sicrhau bod y wybodaeth ond yn cael ei rannu â'r bobl sy'n cymryd rhan yn y broses.

Beth sy'n digwydd pan nodir gofid?

Bydd trafodaeth strategol yn cael ei gynnal lle trafodir yr honiad o gamdriniaeth neu esgeulustod gyda'r bobl berthnasol.

Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch beth a ddylai ddigwydd nesaf ac efallai cynhelir cyfarfod. Efallai bydd angen gwybodaeth bellach gan eraill (e.e. eich gweithiwr/wraig gymdeithasol, therapydd galwedigaethol, nyrs, yr heddlu neu rywun arall, fel rhywun sy'n gwirio bod yr ansawdd gofal yn foddhaol). Efallai cynhelir arolwg o'ch gofal neu allu rhywun i ofalu amdanoch, neu arolwg o'r gwasanaeth sy'n darparu eich gofal.

Mae'r broses yn helpu'r bobl berthnasol sy'n cymryd rhan yn eich gofal i benderfynu os oes angen archwiliad ai peidio. Efallai gofynnir i'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), swyddog contractio neu reolwr/wraig gwasanaeth gofal i wneud archwiliad.

Sut fyddaf yn cymryd rhan ac yn cael fy nghefnogi?

Gofynnir i chi os ydych yn cytuno â'r broses ddiogelu ac os ydych yn cytuno i'r sefyllfa i gael ei archwilio ai peidio. Weithiau, fodd bynnag, bydd angen i wasanaethau cymdeithasol a'r heddlu wneud y penderfyniad hwn i'ch cadw chi'n ddiogel neu i atal unrhyw un arall rhag cael niwed.

Byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn datblygu cynllun diogelu oedolion. Bydd hyn yn egluro gofidion pawb sy'n cymryd rhan yn eich gofal ac yn eu hysbysu am unrhyw gamau diogelwch sydd wedi cael eu hawgrymu i'ch cadw chi rhag profi mwy o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Bydd rhywun yn dweud wrthoch chi beth sy'n digwydd. Mae eich barn a dymuniadau yn ganolog i'r broses diogelu a bydd penderfyniadau yn cael eu seilio arnynt. Bydd cyfres o gyfarfodydd yn cael eu cynnal. Efallai byddwch yn cael gwahoddiad i fynychu rhai neu bob un ohonynt, fodd bynnag, bydd eich barnau bob amser yn cael eu cynrychioli gan naill ai cydlynnydd neu adfocad yn eich absenoldeb. Os ydych yn mynychu gallwch ddod a ffrind neu aelod o'r teulu gyda chi. Mewn cyfarfod bydd gwybodaeth o'r archwiliad i'ch sefyllfa'n cael ei drafod ac efallai bydd mwy o gynlluniau'n cael eu creu i sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi a'ch helpu i gadw'n ddiogel.

Byddwch yn medru cael cefnogaeth gan eich gweithiwr/wraig gymdeithasol, rheolwr/wraig gofal neu gan bobl eraill rydych yn eu hadnabod ac rydych yn ymddiried ynddynt sy'n cymryd rhan yn eich gofal.

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, dylech gysylltu â'ch gweithiwr/wraig gymdeithasol, eiriolwr/wraig, nyrs neu staff sy'n eich cefnogi lle rydych yn byw.

Os hoffech unrhyw wybodaeth arall gan wasanaethau cymdeithasol neu os nad ydych yn fodlon â'r ffordd rydym yn delio ag unrhyw agwedd o'r broses diogelu oedolion cysylltwch â:

Blaenau Gwent:

Ffôn: 01495 315700

E-bost: dutyteam@blaenau-gwent.gcsx.gov.uk

Ffacs: 01495 353350

Caerffili:

Ffôn: 0808 100 2500

E-bost: diogeluoedolion@caerffili.gov.uk

Ffacs: 01443 864664

Sir Fynwy:

Ffôn: 01291 638928

E-bost: monpovaduty@monmouthshire.gcsx.gov.uk

Casnewydd:

Ffôn: 01633 656656 | E-bost: pova.team@newport.gov.uk

Torfaen:

Ffôn: 01495 762200

E-bost: socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

Ffacs: 01495 766686

Os oes argyfwng ac mae angen i chi gysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa ffoniwch ein **Tim Dyletswydd Argyfwng** ar: **0800 328 4432**